Ysgol Hamadryad

Polisi Addysg Rhyw

Angor cadarn cyn hwylio'r don.

Pennaeth:	Mrs Rhian Carbis
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Dr Dafydd Trystan

Dyddiad y Polisi Gwreiddiol: Ionawr 2017

Adolygwyd: Mawrth 2018 a Mai 2019

Cyfrifoldebau: Pennaeth, a'r Cydlynydd Ysgol Iach.

Adolygiad nesaf: Mai 2022

Ysgol Hamadryad
Polisi Addysg Rhyw a Pherthynas

Cyflwyniad

Cafodd polisi ein hysgol ar addysg rhyw a pherthynas ei seilio ar ddogfen *Sex and Relationship Education Guidance* (DfES 0116/2000) yr Adran Addysg a Sgiliau. Rydym yn cydnabod Addysg Rhyw a Pherthynas fel teitl llawn y polisi, ond yng ngweddill y polisi yma byddwn yn cyfeirio ato fel 'addysg rhyw' yn unig. Yn nogfen yr Adran Addysg a Sgiliau, diffinnir addysg rhyw fel 'dysgu am ddatblygiad corfforol, moesol ac emosiynol'. Mae'r canllaw yn datgan, 'Mae am ddeall pwysigrwydd priodas i fywyd teuluol, perthnasau sefydlog a chariadus, parch, cariad a gofal. Mae hefyd am addysgu am ryw, rhywioldeb ac iechyd rhywiol'.

Mae addysg rhyw yn rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ein hysgol. Wrth hysbysu ein disgyblion trwy addysg rhyw am faterion rhywiol, gwnawn hyn gyda golwg ar foesoldeb a chyfrifoldeb personol, ac mewn dull sydd yn caniatáu'r plant i ofyn ac archwilio cwestiynau moesol. Nid ydym yn defnyddio addysg rhyw fel ffordd o hyrwyddo unrhyw ffurf o dueddfryd rhywiol.

Nodau ac amcanion

Rydym yn addysgu ein plant am:

- datblygiad corfforol eu cyrff wrth iddynt dyfu'n oedolion;
- y dull y mae bodau dynol yn atgenhedlu;
- parch am gyrff eu hunain a phwysigrwydd gweithgaredd rhywiol fel rhan o berthynas ymrwymedig, hirdymor a chariadus;
- pwysigrwydd bywyd teuluol;
- cwestiynau moesol;
- materion yn ymwneud â pherthynas;
- parch am safbwyntiau pobl eraill;

- cam-drin rhywiol, a beth ddylent wneud os ydynt yn poeni am unrhyw fater yn ymwneud a rhyw.

Cyd-destun

Rydym yn addysgu am ryw yng nghyd-destun fframwaith amcanion a gwerthoedd yr ysgol. Tra bod addysg rhyw yn ein hysgol yn golygu ein bod yn rhoi gwybodaeth i'r plant am ymddygiad rhywiol, rydym yn gwneud hyn gydag ymwybyddiaeth o'r cod moesol, ac o'r gwerthoedd sydd yn tanategu ein holl waith yn yr ysgol. Yn benodol, rydym yn addysgu am ryw yn y cred:

- dylid addysgu am ryw yng nghyd-destun bywyd teuluol;
- mae addysg rhyw yn rhan o broses ehangach o addysg gymdeithasol, bersonol, ysbrydol a moesol;
- dylid addysgu plant i barchu eu cyrff;
- dylai plant ddysgu am eu cyfrifoldebau tuag at eraill, ac i fod yn ymwybodol o ganlyniadau gweithgaredd rhywiol;
- ei bod yn bwysig i adeiladu perthnasau cadarnhaol gydag eraill, sydd yn cynnwys ymddiriedaeth a pharch.

Trefniadaeth

Rydym yn addysgu am ryw trwy wahanol agweddau o'r cwricwlwm. Tra ein bod yn trin y brif addysg rhyw yn ein cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), rydym hefyd yn gwneud peth addysg rhyw trwy feysydd pwnc arall (er enghraifft, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol) sydd yn ein tyb ni yn cyfrannu'n sylweddol at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gyrff eu hunain, a sut maent yn newid a datblygu.

Mewn ABCh, rydym yn addysgu plant am berthnasau, ac yn annog y plant i drafod materion. Rydym yn addysgu am rannau'r corff, a sut mae'r rhain yn gweithio, ac rydym yn egluro i'r plant beth fydd yn digwydd i'w cyrff yn ystod llencyndod. Er enghraifft, rydym yn dysgu'r plant y bydd lleisiau'r bechgyn yn newid yn ystod llencyndod, ac yn egluro'r misglwyf i fechgyn a merched. Rydym yn annog y plant i ofyn am gymorth os oes angen arnynt.

Mewn gwersi gwyddoniaeth, yn y ddau gyfnod allweddol, mae athrawon yn hysbysu plant am lencyndod a sut caiff babi ei eni. Ar gyfer yr agwedd yma o'n haddysgu rydym yn dilyn y canllawiau o fewn cynllun gwaith gwyddoniaeth. Yn y Cyfnod Sylfaen, rydym yn addysgu'r plant am sut mae anifeiliaid, gan gynnwys bodau dynol, yn symud, bwyta, tyfu ac atgenhedlu, ac rydym hefyd yn eu haddysgu am brif rannau'r corff. Mae plant yn dysgu gwerthfawrogi'r ffaith nad yw pobl i gyd yr un peth, a bod angen i ni barchu ein gilydd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, rydym yn dysgu am brosesau bywyd, a phrif gyfnodau cylchred bywyd bodau dynol, mewn mwy o ddyfnder.

Ym Mlynyddoedd 5 a 6, rydym yn rhoi pwyslais penodol ar addysg iechyd, gan fod nifer o blant yn profi llencyndod yn yr oedran yma. Rydym yn cydweithio gyda'r Awdurdod Iechyd Lleol ar ddeunydd addas i'w defnyddio gyda'n plant yn y gwersi yma. Mae athrawon yn gwneud eu gorau i ateb yr holl gwestiynau gyda sensitifrwydd a gofal. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, rydym yn sicrhau fod y bechgyn a'r merched yn gwybod sut mae plant yn cael eu geni, sut mae cyrff plant yn newid yn ystod llencyndod, beth yw misglwyf, a sut mae'n effeithio menywod. Rydym bob amser yn addysgu hyn gan roi'r sylw dyledus i ddatblygiad emosiynol y plant.
Rydym yn hapus i gwrdd gyda rhieni a gofalwyr plant ym Mlynyddoedd 5 a 6 i drafod y rhaglen arbennig yma o wersi, i egluro beth yw'r materion, a sut cânt eu haddysgu, ac iddynt weld y deunyddiau mae'r ysgol yn defnyddio wrth eu haddysgu.

Rôl y rhieni
Mae'r ysgol yn llwyr ymwybodol mae'r rhieni a'r gofalwyr sydd â'r brif rôl o ran addysg rhyw. Rydym felly am adeiladu perthynas cadarnhaol a chefnogol gyda rhieni'r plant yn ein hysgol, trwy ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a chydweithrediad y naill at y llall. Er mwyn hyrwyddo'r nod yma rydym yn:

- hysbysu rhieni am bolisi ac arfer yr ysgol mewn perthynas ag addysg rhyw;
- ateb unrhyw gwestiynau sydd gan rieni am addysg rhyw eu plentyn;
- cymryd o ddifri unrhyw fater mae rhieni yn codi gyda'r athrawon neu'r llywodraethwyr am y polisi yma, neu am y trefniadau ar gyfer addysg rhyw yn yr ysgol;
- annog rhieni i fod ynghlwm ag adolygu polisi'r ysgol, a gwneud addasiadau iddo lle bod angen;
- hysbysu rhieni am yr arfer orau a wyddom mewn perthynas ag addysg rhyw, fel bod yr addysgu yn yr ysgol yn cefnogi'r negeseuon allweddol mae'r rhieni a'r gofalwyr yn rhoi i'r plant adref;

Credwn, trwy'r cyfnewid yma o wybodaeth, fod y plant yn elwa oddi wrth dderbyn negeseuon cyson am y newidiadau i'w cyrff a'u cyfrifoldebau cynyddol.

Mae gan rieni'r hawl i neilltuo eu plentyn rhag yr oll neu ran o'r rhaglen addysg rhyw rydym yn addysgu yn ein hysgol. Os yw rhiant yn dymuno i'w plentyn gael ei neilltuo o wersi addysg rhyw, dylid trafod hyn gyda'r pennaeth, gan wneud yn glir pa agweddau o'r rhaglen nad ydynt am i'w plant gymryd rhan ynddo. Mae'r ysgol bob amser yn cydymffurfio gyda dymuniadau'r rhieni yn yr achosion yma.

Rôl aelodau eraill o'r gymuned
Rydym yn annog aelodau gwerthfawr eraill o'r gymuned i weithio gyda ni i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r plant mewn perthynas ag addysg iechyd. Yn benodol, aelodau o'r Awdurdod Iechyd Lleol, megis y nyrs ysgol a phobl broffesiynol eraill ym maes iechyd, i roi cefnogaeth werthfawr gyda'n rhaglen addysg rhyw. Pobl eraill sydd yn ein cynorthwyo yw'r clerigwyr lleol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid.

Cyfrinachedd
Mae athrawon yn ymgymryd â gwersi addysg rhyw mewn modd sensitif a chyfrinachol. Fodd bynnag, os yw plentyn yn cyfeirio at fod yn ymwneud (neu'n debygol o ymwneud) â gweithgaredd rhywiol, yna bydd yr athro yn cymryd y cyfeiriad yma o ddifrif, ac yn delio â hyn fel mater o amddiffyn plant. Bydd athrawon yn ymateb mewn dull tebyg os bydd plentyn yn dynodi ei bod wedi dioddef camdriniaeth. Ni fyddant yn ceisio ymchwilio, ond byddant yn hysbysu'r person dynodedig ar gyfer materion amddiffyn plant yn syth am eu pryderon. Bydd y pennaeth yna yn delio gyda'r mater mewn ymgynghoriad â phobl broffesiynol ym maes gofal iechyd (gweler hefyd ein polisi ar Amddiffyn Plant).

Rôl y pennaeth
Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau yr hysbysir staff a rhieni am ein polisi addysg rhyw, a bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. Cyfrifoldeb y pennaeth yw hefyd i sicrhau fod aelodau o'r staff yn derbyn hyfforddiant digonol, er mwyn iddynt allu addysgu am ryw yn effeithiol, a delio gydag unrhyw faterion anodd gyda sensitifrwydd.
Mae'r pennaeth yn cydweithio gydag asiantaethau allanol mewn perthynas â rhaglen addysg rhyw'r ysgol, ac yn sicrhau fod yr holl oedolion sydd yn gweithio gyda'n plant ar y materion yma yn ymwybodol o bolisi'r ysgol, ac yn gweithio o fewn ei fframwaith.
Mae'r pennaeth yn monitro'r polisi yma'n rheolaidd, ac yn adrodd i'r llywodraethwyr yn ôl y gofyn, ar effeithiolrwydd y polisi.

Monitro ac adolygu
Mae Pwyllgor Cwricwlwm y corff llywodraethol yn monitro effaith ein polisi addysg rhyw yn flynyddol. Mae'r pwyllgor yma yn adrodd ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r corff llywodraethol llawn, yn ôl yr angen, os oes angen addasu'r polisi. Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm yn ystyried o ddifri unrhyw sylwadau oddi wrth rieni am y rhaglen addysg rhyw, ac yn cofnodi'r holl sylwadau o'r fath.
Caiff y polisi ei adolygu ym mhen tair blynedd, neu ynghynt os oes angen.

Llofnodwyd Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Llofnodwyd Pennaeth: Rh. Carbis

Dyddiad: Mai 2019